OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 969

## Rheoliadau Trwyddedu Petrolewm (Ffioedd) (Cymru) 2018

**Ffi am gydsyniad ar gyfer rhaglen ddatblygu a chynhyrchu**

**4.**—(1) Rhaid i drwyddedai sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am gydsyniad ar gyfer rhaglen ddatblygu a chynhyrchu dalu ffi.

(2) Mae swm y ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) yn cael ei bennu gan y fformiwla—

$$£595 \times A \times B$$

pan fo—

A yn nifer y diwrnodau; a

B yn nifer y swyddogion

sy'n ofynnol er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch y cais.

(3) Rhaid i'r ffi sy'n daladwy o dan baragraff (1) gael ei thalu o fewn 30 diwrnod i'r adeg y mae Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai am y penderfyniad ynghylch y cais oni bai bod Gweinidogion Cymru yn hysbysu'r trwyddedai y caniateir i'r ffi gael ei thalu ar ddyddiad diweddarach.

(4) Ym mharagraff (2), ystyr "swyddog" ("*officer*") yw person a gymerir ymlaen gan Weinidogion Cymru, neu ar eu rhan, i gyflawni'r swyddogaeth y mae'r ffi berthnasol yn daladwy mewn cysylltiad â hi.